PENNAETH GWYDDONIAETH A CHADWRAETH BIOAMRYWIAETH

DISGRIFIAD SWYDD

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales

PENNAETH GWYDDONIAETH A CHADWRAETH BIOAMRYWIAETH

CYNNWYS

1 CROESO

2 Y SEFYDLIAD

3 Y RÔL

4 Y CAMAU NESAF

PENNAETH GWYDDONIAETH A CHADWRAETH BIOAMRYWIAETH

CROESO

Diolch yn fawr iawn ichi am eich diddordeb yn y penodiad hwn gyda Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Rydym yn byw ar adeg o newid anferth mewn cymdeithas, gwyddoniaeth a thechnoleg, ac rydym yn wynebu heriau amgylcheddol mawr a cholledion parhaus mewn bioamrywiaeth. Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (GFGC) yn darparu'r cyfle unigryw hwn i gael effaith mewn gwaith ymchwil, ei ddefnyddio a rhannu gwybodaeth.

Mae GFGC wedi ymroi i waith ymchwil a chadwraeth bioamrywiaeth, i gynaliadwyedd ac i ddysgu gydol oes. Mae'r sefydliad mewn lle grymus i integreiddio gwyddoniaeth ar draws yr holl safle ac i gyflawni ei ymrwymiad i gysylltu cynulleidfaoedd â phlanhigion â'n gwaith ymchwil a'n casgliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth . Yn yr un modd gall GFGC herio ffordd pobl o feddwl am fioamrywiaeth ac amaethyddiaeth atgynhyrchiol – yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Er mwyn darparu'r ymrwymiad hwn, mae'r sefydliad yn tynnu ar ei gasgliadau a'i ystâd unigryw sy'n cynnwys yr ardd fotaneg, Gwarchodfa Natur Genedlaethol

Bydd y Pennaeth Gwyddoniaeth a Chadwraeth Bioamrywiaeth yn sicrhau bod rheolaeth Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn cael ei hategu gan wyddoniaeth yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn esiampl o reolaeth tir atgynhyrchiol sy'n llunio cysylltiadau clir rhwng gwyddoniaeth planhigion, bioamrywiaeth ac amaethyddiaeth gynaliadwy. Bydd y swydd yn atgyfnerthu ac yn ymestyn cwmpas ac enw da y sefydliad ac yn sicrhau bod hynny'n cael ei fynegi'n glir ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Yn sgil newid yn yr arweinyddiaeth gyda phenodiad y Dr Lucy Sutherland yn Gyfarwyddwr GFGC yn yr hydref 2022, mae hon yn adeg gyffrous i ymuno â'r sefydliad gan ein bod yn cychwyn ar weithredu'r Cynllun Strategol 10 mlynedd uchelgeisiol sydd ar nod o ehangu ein proffil cenedlaethol a rhyngwladol, ein cwmpas a'n galluoedd.

Bydd effaith eich gwaith yn rhan bwysig o'r dasg o osod Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn y dyfodol ac o gyfrannu at y gwaith arwain yng Nghymru. Rydym yn chwilio am rywun i ddarparu arweiniad strategol, gallu partneriaeth eithriadol, ac i gyfrannu at wireddu gweledigaeth gymhellol GFGC fel canolfan enwog yn rhyngwladol am gadwraeth bioamrywiaeth a gwaith ymchwil. Bydd eich arbenigedd a'ch gwybodaeth yn addas ar gyfer sefydliad cenedlaethol sy'n cydweithio'n rymus ac eang â nifer o bartneriaid academaidd ac mewn llywodraeth, busnes a diwydiant. Byddwn yn gweithio gyda deiliad y swydd i lunio cyswllt â sefydliad academaidd priodol.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb – mae amrywiaeth, cynhwysiant a theimlad o berthyn yn bwysig i ni. Rydym yn chwilio am arweinydd gwyddoniaeth uchelgeisiol, dawnus ac ymroddedig sydd eisiau chwarae rhan hanfodol yn nyfodol ein hagenda.

Os chi yw'r gŵr hwnnw neu'r wraig honno, rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych.

Dr Lucy A. Sutherland
Cyfarwyddwr, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

PENNAETH GWYDDONIAETH A CHADWRAETH BIOAMRYWIAETH

Y SEFYDLIAD

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (GFGC) yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig sy'n ymroi i waith ymchwil, cadwraeth, cynaliadwyedd, dysgu ac ysbrydoli ein hymwelwyr a'r gymuned ehangach.

Mae gan GFGC Ganolfan Wyddoniaeth bwrpasol gyda thri labordy moleciwlaidd penodol, labordy dysgu, llyfrgell, llysieufa a Banc Hadau Cenedlaethol Cymru. Mae hyn oll, gyda dros 200m hectar o dir, sy'n cynnwys yr ardd fotaneg ffurfiol a chasgliadau planhigion arbenigol, tair gwenynfa, a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las sy'n cael ei rheoli fel tir fferm organig, yn rhoi i Gymru gyfleustra di-ail ar gyfer cadwraeth a gwaith ymchwil.

Caiff GFGC ei disgrifio fel ased genedlaethol yn y Strategaeth Wyddoniaeth Genedlaethol i Gymru, ac mae'n cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol a rhyngwladol o ran bioamrywiaeth, cynaliadwyedd a llesiant. Blaenoriaeth sy'n arbennig o amlwg yn rhyngwladol yw Nodau Datblygiad Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, ac ar y lefel genedlaethol mae Deddf Llesiant y Dyfodol a'r Amgylchedd yn darparu fframwaith strategol ar gyfer gweithgareddau GFGC.

GFGC yw'r ardd fotaneg gyntaf yn y Deyrnas Gyfunol i gael ei chydnabod gan y sefydliad Botanic Gardens Conservation International gan gyrraedd pob un o'r tair lefel achrediad, yn cynnwys Ymarferydd Cadwraeth Uwch.

Ers y pandemig mae GFGC wedi ennill nifer o wobrau fel safle, gan gynnwys Gwobr Dewis y Bobl gan Sefydliad y Peirianwyr Siartredig (ICE) am ei gwaith yn adfer y dirwedd hanesyddol, ac mae ei henw da wedi cynyddu fel canolfan ryngwladol ar gyfer garddwriaeth, gwyddoniaeth a chynaliadwyedd.

Mae casgliadau a gwaith ymchwil y sefydliad yn rhan o gymuned fyd-eang o erddi botaneg. Mae gennym swydd hanfodol yn gwneud darganfyddiadau ac yn

darparu hyfforddiant a throsglwyddo gwybodaeth er lles pobl, bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Ynghyd â phrifysgolion, Llywodraeth Cymru a phartneriaid heblaw mewn llywodraeth, mae amrywiol ddisgyblaethau'n cael eu dwyn ynghyd i wneud darganfyddiad newydd sy'n atal colli bioamrywiaeth. Dyma'r meysydd gwaith allweddol:

- Diogelu planhigion a chynefinoedd eiconig Cymru. Mae bioamrywiaeth yn digwydd ar lefel y gennyn, y rhywogaeth a'r ecosystem, ac rydym yn defnyddio technegau DNA i gefnogi cadwraeth ar y tair lefel.
- Defnyddio barcodio DNA i ymchwilio i hoff ddewisiadau fforio peillwyr, gan ddarparu awgrymiadau ar gyfer y planhigion a'r rheoli cynefinoedd angenrheidiol i gefnogi ecosystemau.
- Hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr planhigion a rheolwyr tir drwy ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu a datblygu sgiliau ymchwil.

Gyda thua 100 o staff, 200 o wirfoddolwyr a 10,265 o aelodau, mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn gymuned fywiog ac angerddol o bobl sy'n ymroi i gael effaith ar bopeth a wnawn.

PENNAETH GWYDDONIAETH A CHADWRAETH BIOAMRYWIAETH

Y RÔL

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales

Teitl
Pennaeth Gwybodaeth a Chadwraeth Bioamrywiaeth

Sefydliadau
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Location
Llanarthne, Sir Gaerfyrddin

Cyflog
Mae ystod y gyflog ar gyfer y Pennaeth Gwyddoniaeth a Chadwraeth Bioamrywiaeth yn seiliedig ar gyflogau addysg ac ymchwil mewn sefydliadau addysg ac yn dibynnu ar brofiad mewn gwaith ymchwil a llwyddiant yn sicrhau a rheoli grantiau o £44,414 - 63,059

Llinell Atebolrwydd
Atebol i'r Cyfarwyddwr, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Lefel
Yn eistedd ar y Tîm Arweinyddiaeth Uwch, a chaiff ei rwydweithio i mewn i gynrychioli GFGC ar sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol. Caiff y swydd ei chefnogi i greu cyswllt priodol â phrifysgol.

Tîm
4 Adroddiad uniongyrchol a rheoli tîm cyflawn o 9 person; yn ogystal mae tîm o wirfoddolwyr ymroddedig.

Prif Berthnasoedd
Cyfarwyddwr: Tîm Arweinyddiaeth Uwch; Bwrdd GFGC; sector prifysgolion Cymru; partneriaid cenedlaethol a rhyngwladol; y cyfryngau; sectorau gwyddoniaeth, cadwraeth a diwydiant perthnasol.

Teithio
Teithio a gwaith maes yn ôl yr angen. Rhaid bod yn barod i deithio fel cynrychiolydd y sefydliadau.

Trefniadau Pensiwn
Cynllun Nyth – yn bodloni'r safonau cymhwyso sydd wedi eu gosod gan y llywodraeth ar gyfer Cynlluniau ymrestru awtomatig. Er mwyn cydymffurfio â Deddf Pensiynau 2008, mae'n ddyletswydd ar GFGC, o 1 Mai 2014, i ymrestru neu ail-ymrestru'n awtomatig unrhyw ddeiliad swydd cymwys i mewn i gynllun pensiwn sy'n gymwys. Byddwch yn ddeiliad cymwys os ydych rhwng 22 oed ac Oed Pensiwn y Wladwriaeth ac yn ennill mwy na'r trothwy sy'n cael ei osod gan lywodraeth. Os byddwch yn gymwys, bydd GFGC yn awtomatig yn eich ymrestru yn y Cynllun Nyth ac yn rhoi gwybod ichi'n ysgrifenedig. Bydd gennych yr hawl i dynnu allan o'r Cynllun Nyth.

Cynllun Standard Life – Gall cyflogeion, sy'n gweithio ar gontractau cyflogaeth parhaol ac sydd wedi llwyddo i gwblhau eu cyfnod prawf 6 mis, wneud cais i ymuno â chynllun pensiwn prynu arian Standard Life yn GFGC. Ar ôl cael eich derbyn gan Standard Life, tynnir 5% o'ch enillion a bydd yr un swm yn cael ei gyfrannu gan GFGC. Gallwch gyfrannu mwy o'ch enillion os dymunwch, ond bydd cyfraniad GFGC yn parhau'n 5%. Os cewch eich derbyn yn aelod o Gynllun Standard Life, rhaid ichi dynnu allan o'r Cynllun NYTH, oherwydd bydd GFGC yn cyfrannu at un cynllun pensiwn yn unig ar eich rhan. Os na thynnwch allan o'r cynllun NYTH, NYTH fydd y cynllun y bydd GFGC yn cyfrannu ato ar eich rhan.

PENNAETH GWYDDONIAETH A CHADWRAETH BIOAMRYWIAETH

Y RÔL

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales

Gwybodaeth:

Hanfodol

- Addysg i lefel ôl-radd gyda chymhwyster/ cymwysterau proffesiynol perthnasol a/neu brofiad mewn maes cysylltiedig.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth helaeth o'r sector(au) casgliadau, gwyddoniaeth, amgueddfeydd a/neu dreftadaeth.
- Gwybodaeth am ddatblygu, gweithredu a dosbarthu rhaglen berthnasol o waith ymchwil ar gyfer sefydliad gwyddoniaeth.
- Gwybodaeth sut gellir darparu mynediad i ystod amrywiol o gynulleidfaoedd, e.e. benthyciadau, amgueddfeydd, yn ddigidol.
- Gwybodaeth am yr arfer gorau ar gyfer casgliadau integredig, gofal a storio, dogfennu, datblygu gweithgareddau cadwraeth mewn sefydliad casgliadau o faint canolig.
- Hanes llwyddiannus o sicrhau a rheoli grantiau ymchwil a gwyddoniaeth gymwysedig.

Dymunol

Gwybodaeth o weithio mewn partneriaeth ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol.

Sgiliau:

Hanfodol

Arweinyddiaeth Strategol

- Gallu darparu arweinyddiaeth strategol ragweithiol i GFGC mewn gwyddoniaeth a chadwraeth bioamrywiaeth, gan ysbrydoli eraill i lunio partneriaeth, gwneud ymchwil a chyfrannu at y weledigaeth a bod yn rhan ohoni.
- Gallu cynrychioli GFGC ledled Cymru, y Deyrnas Gyfunol ac yn rhyngwladol mewn amrywiaeth o wahanol osodiadau.
- Gallu rheoli adnoddau, gan gynnwys rheoli cyllidebau ac arian grant, a rheoli perfformiad staff.
- Gallu cyfathrebu'n hyderus a chyda pherswâd gydag amrywiol gynulleidfaoedd.
- Gallu rhoi cyngor clir a chyson i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, y Cyfarwyddwr, y Tîm Rheolwyr Uwch ac eraill ar faterion yn ymwneud â gwyddoniaeth, cadwraeth ac amaethyddiaeth atgynhyrchiol.
- Gallu adeiladu a chynnal perthynas a gweithio mewn perthynas ag amrywiaeth o ran-ddeiliaid yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Dymunol

Sgiliau yn y Gymraeg. Bydd staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddysgu sgiliau sgwrsio yn Gymraeg.

PENNAETH GWYDDONIAETH A CHADWRAETH BIOAMRYWIAETH

Y RÔL

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales

Profiad:

Hanfodol

- Profiad o reoli, ysgogi a darparu arweinyddiaeth ar gyfer tîm aml-ddisgyblaeth.
- Profiad o reoli adnoddau'n effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys cynllunio a chydlynu adnoddau staffio a chyllideb mewn sefydliad(au) gwyddoniaeth ac ymchwil.
- Profiad o ddatblygu, rheoli a dosbarthu rhaglen o ymchwil cadwraeth gwyddoniaeth a bioamrywiaeth sy'n canolbwyntio.
- Llwyddiant yn nodi a sicrhau grantiau neu gyllido arall ar gyfer gweithgareddau'n ymwneud â gwyddoniaeth.
- Profiad o ddarparu addysg academaidd a phrosiectau ymchwil, gan gynnwys record dda o gyhoeddi canlyniadau ymchwil.
- Record dda o weithgareddau llwyddiannus ar lefel doethuriaeth ac ôl-ddoethuriaeth.

Dymunol

- Profiad perthnasol sylweddol o gyfrannu at wneud penderfyniadau ar lefel strategol mewn sefydliad gwyddoniaeth, amgueddfa, a/neu sefydliad treftadaeth neu sefydliad academaidd.
- Profiad o ddarparu prosiectau sylweddol yn llwyddiannus.
- Profiad o ddatblygu a gweithredu gwasanaethau proffesiynol gwyddoniaeth i gynhyrchu incwm.

Rhannau Mwyaf Heriol y Swydd:

- Arweinyddiaeth ysbrydoledig ar draws sefydliad trydydd sector main a chymhleth, gan sicrhau bod ei wyddoniaeth yn berthnasol i Lywodraeth Cymru ac yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Darparu gwaith ymchwil ac addysg ysbrydoledig.
- Cynhyrchu incwm i alluogi darparu canlyniadau gwyddoniaeth a chadwraeth bioamrywiaeth.
- Darparu strategaethau sy'n bodloni nodau cenedlaethol a sefydliadol o'r trydydd sector a'r sector ymchwil.
- Mwy o fynediad yn gorfforol a digidol i'r casgliadau a'u storiau ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol.
- Cydbwyso blaenoriaethau sy'n gwrthdaro ar draws y sefydliad ac o'i fewn.

PENNAETH GWYDDONIAETH A CHADWRAETH BIOAMRYWIAETH

Y CAMAU NESAF

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales

Rydym yn sefydliad dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg, ac ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Gwahoddir ymgeiswyr a gaiff eu rhoi ar restr fer i ddod i gyfweliadau.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb – mae amrywiaeth, cynhwysiant a theimlad o berthyn yn bwysig i ni. Drwy ddenu pobl i weithio inni o ystod eang o gefndiroedd, gallwn barhau i edrych ar y byd drwy lygaid ffres a dod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau. Rydym yn cynnig amgylchedd ysgogol a phroffesiynol i weithio. Mae hwn yn gyfle rhyfeddol, ac rydym yn chwilio am staff sy'n gallu gweithio yn ôl ein gwerthoedd ni – rydym yn hyrwyddo amrywiaeth, yn annog creadigrwydd, rydym yn cysylltu ac rydym yn rhoi gwerth ar dystiolaeth.

Byddwch cystal â chysylltu â Dr Lucy A. Sutherland (Cyfarwyddwr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru) am drafodaeth gyfrinachol ac i wneud cais am y swydd hon (Tel: +44 (0)1558 667149; E-bost: Anne-Maria.Nicholas@gardenofwales.org.uk).

Lluniau: GFGC, Aled Llywelyn, Natasha de Vere, Tim Jones